Copi o gasgliad wedi'i rwymo oddi wrth Llyfrgell Prifysgol Caerdydd

Y DINESYDD

RHIFYN 9. CHWEFROR/MAWRTH 1974

(Yn rhifyn diwethaf 'Y Dinesydd' fe ymddangosodd adroddiad ar ddirywiad Clwb Tŷ'r Cymry. Dyma fraslun o hanes y 'Tŷ' o'i dalechreuad.)

BRASLUN O HANES TŶ'R CYMRU

Unwaith ymhell, bell, yn ol pan oedd strydoedd Caerdydd gryn dipyn gwacach, pan oedd lampau nwy'n eu goleuo a thramiau'n eu tramwyo a phan welid, ar el corneli, ambell Gymro unig, pell oddi cartref, yn loetran yn ddi-bwrpas, cyn bod son am UCAC na Chymdeithas Yr Iaith nac Ysgol Gymraeg Bryn Taf yr oedd cymdeithas-as Cymraeg Caerdydd yn cael anhawster i ddod o hyd i lefydd i gynnal eu cyfarfodydd. Ond yna, ym 1936, fe ddaeth y gwrda caredig Mr. Lewis Williams, Nelson i'r adwy a phrynu tŷ — 11 Gordon Rd., ac yn Mehefin y flwyddyn honno fe'i cyflwynodd i ofal dyrnaid o ymddiriedolwyr i'w ddefnyddio at wasanaeth Cymry Caerdydd. Dyna enedigaeth 'Tŷ'r Cymry' a dyna, o bosib, un o gymwynasau mwyaf neb i fywyd Cymraeg y Ddinas am flynyddoedd. Bellach 'roedd un ganolfan lle gellid crisialu holl ymdrechion y rhai hynny oedd yn awyddus i weld llewyrch ar welthgareddau Cymraeg y Ddinas.

Aeth yr aelodau cyntaf ati gydag afiaith i sicrhau bod y ty'n cael el drol'n ganolfan holl gymdeithasau a mudiadau Cymraeg. Derbyniwyd rhoddion helaeth o ddodrefn a llestri, darluniau a llyfrau oddi wrth gapeli, cymdeithasau ac unigolion a chyn pen [illegible] 'roedd 11 Gordon Rd. yn [illegible] i bob gweithgarwch Cymraeg.

Ond, mewn gwirionedd, mae hanes Tŷ'r Cymry ynglŷn wrth hanes y cymdeithasau a fu'n cyfarfod yno. Yn y blynyddoedd cyntaf fe fu'r Blaid Genedlaethol yn cynnal eu cyfarfodydd yno'n gyson a, chyn dyddiau West Grove a Cowbwy Rd., yno hefyd y cyfarfu angen Caerdydd o Urdd Gobaith Cymru. Ond os cynnigir llawryf ŷr mudiad a gyfarfu yno hwyaf, ŷr Mudiad Mamau a Merched Cymru yr ŷ hwnnw am iddynt gyfarfod yno'n ddi-fwlch o 1936 hyd heddiw.

HANES PWYSIG

Fe welodd y ty, hefyd, esgor ar nifer o gymdeithasau newydd. Oddi yno y deilliodd ac y tyfodd UCAC ac yno, wrth gwrs, y mae'r pencadlys o hyd. Drwy chwys llafur a grym dadl ac argyhoeddiad rhai rhieni ymroddgar a gyfarfu yno ar foreuau Sadwrn y daeth ysgol Gynradd Gymraeg i fod ac fel dilyniant i hynny y teimlodd rhai mamau ewyllysgar yr angen am ysgol feithrin Gymraeg. Ni fu'r Ddrama ychwaith yn amddifad o'i lle amlwg ymhlith y gweithgareddau, a gellid dibynnu ar gael gweld, o leiaf un, cynhyrchiad newydd bob blwyddyn heb son am gynhyrchiadau Cymdeithas Twm o'r Nant a'u hanterliwtiau.

Yn wir, bu'r lle'n byrlymu o weithgarwch am flynyddoedd. Beth oedd rhywbeth ymlaen bob nos — pwyllgor, ymarfer côr neu barti syd adrodd, criw yn cyfarfod i chwarae tennis bwrdd a billiards, cyfarfodydd gwleidyddol a darlithoedd ac 'roedd yn waith amser llawn i rhywun i ofalu am y lle. Cafodd rhan o'r adeilad ei neilldio fŷ diben o gartrefu celdwad, ac ymhlith y rhai a fu'n gyfrifol amdano bu Mrs. Celyn John a Mrs. Eleanor Davies wrthi am flynyddoedd lawer. Mewn gwirionedd fe fu'r ty yn fwy na chanolfan i gymdeithasau fe fu'n aelwyd i groesawy unrhyw un a ddymunai droi i mewn, boed hynny ar berwyl swyddogol neu beidio.

Nid bod yr holl weithgareddau hyn wedi parhau'n ddi-fwlch gydol y blynyddoedd, wrth gwrs. Fe welid cyfnodau o hirlwm gydag ambell fenter neu syniad yn methu neu'n chwythu'i blwc weithiau ond, rhywfodd, fe dyfai rhyw ysbryd newydd fel ffenics o lwch yr hyn a fu. Fo ddaeth y rhyfel, hefyd, a chyfnod o ansefydlogrwydd i'w chanlyn ond dal ymlaen a wnai gweithgarwch 'Tŷ'r Cymry' drwy'r cwbwl, — hynny yw, hyd yn gymharol ddiweddar.

NEWID A DIRYWIAD

Yn ddiweddar mae rhywbeth wedi newid ynglŷn ā'r lle. Mae'r brwdfrydedd a'r eiddgarwch am gynnal y tŷ fel canolfan gymdeithasol wedi dirywio. Aeth y Clwb a'i ben ldlo a bu raid i rai o arweinwyr y cyfnod 'aur' ail-gydio yn yr awenau i geisio sicrhau ei barhad. Beth sydd wedi digwydd? Aeth rhai o'r cymdeithasau a'r mudiadau i'w ffordd eu hunain a ffynnu ac aeth rhai eraill i ddifancoll. A beidiodd yr angen am fagwrfa o'r fath? A oroesodd y 'Ty' ei ddefnyddioldeb? Tybed oni newidiodd ansawdd y gymdeithas Gymraeg erbyn hyn? Bugeiliaid newydd sydd ar y mynyddoedd; a newidiodd eu dull o fugeilio er gwell neu er gwaeth!) ac oni newidiodd safle'r corlannau?

Gareth Lloyd Williams.

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

"Mae hi'n bryd imi adnewyddu fy nhanysgrifiad i'r papur diddorol yma" meddai Lowri Heledd Ffransis o Rhiwbeina, y dydd o'r blaen wrth ein gohebydd.

RHAID CAEL MWY O ARIAN

Er bod mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r DINESYDD fel llwyfan i'w gweithgareddau siomedig iawn yn gyffredinol fu'r ymateb i'n hapel am gyfraniadau tuag at gostau cyhoeddi'r papur.

Fe gafwyd tua dau gant o noddwyr — hynny yw — talu trwy archeb banc — ond dim ond rhyw bymtheg arall fu'n ddigon hael i dalu punt y flwyddyn fel tanysgrifwyr. Siomedig iawn hefyd fu'r ymateb oddi wrth y cymdeithasau. Yn wir, onibai bod un teulu ifanc wedi rhoi £100 byddem mewn dyfroedd dyfnion. Teg dweud hefyd bod nifer sydd erbyn hyn wedi gadael Caerdydd neu'n dod yma'n achlysurol yn llawer iawn mwy ymwybodol o bwysigrwydd bodolaeth 'Y Dinesydd'.

Mae costau argraffu wedi codi o £120 i £185 y rhifyn mewn ychydig fisoedd — ac os na fydd yna well ymateb i'r apel yma bydd yn rhaid inni ystyried y sefyllfa'n ddifrifol. Y posibiliadau eraill fyddai cyhoeddi papur llawer llai rhyw chwe gwaith y flwyddyn neu gyhoeddi cylchgrawn chwarterol. Byddai'n drueni i hyn ddigwydd — ond annheg fyddai disgwyl i leiafrif bychan dalu am bapur i'r miloedd sy'n byw yng Nghaerdydd a'r cylch.

Anfonwch eich cyfraniadau at —

'Y Dinesydd'
44 Heol y Nant,
Rhiwbeina,
Caerdydd.

CAPEL NEWYDD EBENESER

Ym mis Hydref cyfarfu'r aelodau mewn Cwrdd Eglwys, a phenderfynwyd symud ymlaen mewn cydweithrediad a Chyngor y Ddinas i ail leoli'r capel ar safle "Jackson Hall" yn Heol y Porth (Westgate Street).

Cyfarfu'r Is-bwyllgor, a benodwyd ar gyfer cyd-gysylltu'r gofynion, ac aethpwyd ati i baratoi cynllun bras (Sketch plans).

Bu trafod brwd ar y cynllun bras cyntaf, mewn cyfarfod o'r Is-Bwyllgor cyn y Nadolig. Cafwyd awgrymiadau a gwellaiannau i'r cynllun, ac yn tarddu o'r cyfarfod cafodd y penseiri well syniad o'r gofynion a'r anghenion.

Seiliwyd y Cynllun Bras ar y gofynnion canlynol:

1. Capel—gydag Oriel i ddal tua 500.
2. Neuadd—Festri gyda llwyfan i ddal tua 200, gyda chyfleusterau i'w rhannu i ystafelloedd llai.
3. Ystafell Bwyllgor i tua 15-20.
4. Cegin sylweddol, ar gyfer paratoi bwyd i tua 200.
5. Ystafell Gweinidog ac ystafell Diaconiaid ar wahan, ond yn gyfleus i'r pulpud.
6. Mynedfa ganolog—heb risiau o'r stryd, os bydd yn uwch na'r stryd.
7. Toiledau ar ddau lawr.
8. Dim sedd fawr draddodiadol.
9. Ystafell ymgynnull wedi oedfa.
10. Ail leoli'r Organ ym mhen blaen y capel.
11. Fflat i Ofalwr (os yw yn bosibl).

Seilir y cynllun bras ar ddau lawr ag oriel, am na ellir lleoli'r gofynion ar un llawr oherwydd cyfyngiadau'r safle.

COLOFN SBECTOL SIAN

ALBANY ROAD

Lle dilyr ydy Albany Road, yn enwedig y rhan ohoni sydd wrth y Claude. Wyddoch chi fod ysgol golffio ag archfarchnad bapur wal yno, yn ogystal a siop sglodion, londret, pictiwrs, dwy garej a swyddfa "Cyngor Unedig ar Alcohol a chyffuriau eraill" ble nad oes llenyddiaeth Cymraeg i'w gael. Mae'r ferch sy'n gweithio yno'n smygul ofnadwy ynte.

Os nad oes Cymraeg yno, cerddwch ychydig lathenl i fyny'r ffordd ac fe ddowch i siop newydd sbon o'r enw 'Gwerin'. Gwerthir man gelfi o bob math, darluniau, tegannau, addurniadau ag ati yno. Felly os ydych yn gwneud pethau gyda'ch dwylo ewch a nhw yno i'w gwerthu, neu ewch yno i brynu gwaith pobl eraill — Pob lwc i 'Gwerin' a'r Cymry sy'n rhedeg y siop. Gwneir popeth yn y siop gyda llaw — gyda llawl

O GARCHAR

Gan fod ambell i ddinesydd o Gaerdydd sydd a thy haf yn y gogledd yn cwyno fod aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn peintio a mynd i fewn i dai pobl eraill peth braf iawn oedd cael croesawu un ohonynt allan y dydd o'r blaen. Carcharwyd Terwyn Tomos ar Dachwedd 12fed am iddo dorri amod a osodwyd arno gan Lys Apel Llundain, fis Mawrth. Er nad oedd awdurdodau'r carchar yn caniatau mwy na un papur wythnosol iddo, byddwch yn falch o glywed el fod wedi derbyn dau rifyn o'r Dinesydd yn ddidramgwydd — am el fod yn bapur misol, neu am el fod yn bapur mor ddal

HAERLLUG

Collais ddyfyniad cynghoryda Llafur o Gaerffili a fwriadais i lenwi'r rhan yma o'r golofn. Wrth ganmol penderfyniad pwyllgor Addysg Canol Morgannwg ynglyn a dysgu Cymraeg dywedodd rywbeth fod y Blaid Lafur yn flaenllaw yng nghadwriaeth yr laith! Gan nad yw'r dyfyniad gen i ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu son am y peth o gwbwl.

ETHOLIAD AR CHWEFROR 28

Pryd mae'r etholiad? 'Roedd pawb yn son am Chwefror 14eg (Dydd Sant Folant) fel y diwrnod mawr. Rwy'n siwr ysywaeth i Edward Heath wrthod y dyddiad hwn am i Blaid Cymru ei gyhuddio o anwybyddu Ionawr 25ain — Dydd Dwynwen —

Gan fod Dydd Dwynwen wedi peio, gobeithio na chawn ein byddaru bron bob bore Sadwrn gan Endaf Emlyn wrth iddo "Ddilyn Dwynwen". Mae'n hen bryd i rywun gael y neges "Dydy Dwynwen ddim ishio gwybod!" — Beth bynnag, — dim mwy os gwelwch yn dda.

Gair bach arall yng ghlust pwy bynnag a 'sgrifennodd hanes Noson Lawen, Theatr yr Ymylon, yn "Y Cymro" Ionawr 29. Soniodd fod Stewart Jones wedi cymeryd rhan — 'Y mhwynt mawr i di hyn — 'doedd Stewart Jones ddim yno — embarass hwnna.ydlol'

Mae'n debyg y bydd digon o groeso i chi ac i Stewart Jones yng nghyfarfod cyntaf Cymdeithas Ty'r Cymru yn y dyfodol agos ar ol ail sefydlu'r Gymdeithas hon Nos Fawrth, Ionawr 29.

Etholwyd pwyllgor i fod yn gyfrifol am y rhaglen. Fel y darllenwyd yn 'Y Dinesydd' Rhifyn 7. "Mae 'na le (ichi) yn ty ni" — wulal chi yno, lawn?

Datganiad i'r Wasg

CROESO I NELI

Un o guntorion mwyaf gwlad Groeg yn y blynyddoedd diwethaf yw merch ifanc o'r enw Zana Papandreou ac, er gwaethaf yr enw Groegaidd, mae Zana yn hanner Cymraes. Un o Flaenau Ffestiniog yw mam Zana; aeth ar ei gwyliau i Roeg ddwy flynedd ar hugain yn ol. Ni ddychwelodd. Cyfarfu a Nikyrs Papandreou, brodor o Agrinion yng Ngorllewin Groeg, a pherchennog y gwesty bach yn Athen yr arhosai ynddo, ac o fewn chwe mis, fe'u priodwyd.

Fodd bynnag, nid anghoflodd Mrs. Papandreou ei Chymraeg a phan aned merch iddi hi a'i gwr flwyddyn yn ddiweddarach, penderfynodd y ddau y dylid dysgu iddi siarad Cymraeg yn ogystal a Groeg. Felly y bu.

Wrth ganu mewn cyngerdd yn Ynys Cypros yr haf diwethaf, cyfarfu Zana a Chymro a oedd yn byw yno. Wedi iddo glywed am ei chefndir, mentrodd awgrymu y gwnai hi argraff drydunol yng Nghymru, ac fe roddodd iddi nifer o recordiau Cymraeg yn anrheg. Ymhlith y rhain roedd record y Tebot Piws gyda 'Mynd nol i Flaenau Ffestiniog' arni. Dyna, mae'n siwr, a sbardunodd Zana i wneud penderfyniad pwysicaf ei bywyd — dychwelyd i fyw a gweithio yng Nghymru.

Cantores enwog yn rhoi'r gorau i sicrwydd a phoblogrwydd yng ngwlad ei geni er mwyn cysegru ei doniau i wlad ei mam — sut dderbyniad gaiff hi yma tybed?

Daeth draw i Lundain fis yn ol gyda'i chwaer Melina, gan alw yn Llydaw am bythefnos ar y ffordd i weld Alan Stivell ac eraill. Yno y cyfarfu a Catia la Roparz, myfyrwraig ym Mhrifysgol Rennes sydd a diddordeb arbennig yn alawon gwerin y gwledydd Celtaidd. Fe ddaeth hi i gysylltiad a chyfeilles iddi yng Nghymru ac, o fewn dyddiau, fe benderfynodd y pedair ohonynt i ffurfio grwp gwerin.

A dyna, yn syml, yw 'Neli' — Zana, Melina, Catia a Mari. Maent ar hyn o bryd yn ymarfer yn brysur ar gyfer eu hymddangosiad cyntaf yng Nghymru, ar Fawrth 3ydd yn Theatr Sherman, Caerdydd, gan obeithio dilyn y noson honno gyda thaith o gwmpas Cymru.

Braint yw cael eu croesawu i Gymru ac edrychwn ymlaen at y cyfle hwn i fwynhau a gwerthfawrogi eu dawn ddiamheuol ac anghyffredin.

Am fanylion pellach parthed perfformiadau eraill, dyddiadau rhydd ac ati, dylid dod i gysylltiad a'u rheolwr yn Llundain (ffon: 01-603-8164).

PLAID CYMRU

PWYLLGOR MERCHED DE-DDWYRAIN

Yng nghyfarfod cynta 1974 fe ddechreuodd Anne Roberts Radur ei thymor fel llywydd am y ddwy flynedd nesa.

Etholwyd Enid Jones Davies yn is-lywydd ac fe ail-etholwyd Heulwen Jones yn drysorydd ac Elrwen Davies yn ysgrifennydd. Dioichwyd i Ray Evans am ei gwaith trylwyr fel llywydd yn ystod y ddwy flynedd diwetha.

Dyma'r dyddiadur am eleni:—

Mawrth 19:
Llandaf Court: Sioe Ffasiwn gan Mari Howells a Dr. Ilyd Anthony yn dangos sut i nyddu gwlan.

Mawrth 30:
Ffair Sborion yn Neuadd St. Saviour, Y Sblot.

Medi 13:
Gwyl Fedi yn Llandaf Court.

Hydref 19:
Ffair Sborion, Neuadd St. Saviour, Y Sblot.

Tachwedd 23:
Ffair Nadolig yn Neuadd y Ddinas.

www bendigedig !

CYMRODORION CAERDYDD

Mawrth 2fed am 7 or gloch yng Ngwesty'r Parc Cinio dathlu Gwyl Dewi.
Prif-westai Syr Ben Bowen Thomas.

FFILMIAU AR GYFER GWYL DDEWI

I Mawrth, 1974 am 4 o'r gloch. Dangosir rhaglen o ffilmiau yn Nurlithfu Reardon Smith yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd brynhawn Gwyl Ddewi. Paratoir ffilmiau sy'n addas ar gyfer pobl ifanc dros 12 oed. Bydd y rhaglen o ffilmiau Cymraeg yn para awr o amser ac yn cynnwys rhai o ffilmiau y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg Newydd.

Mae mynediad yn rhad drwy docyn arbennig y gellir ei gael o Swyddfa Gwasanaeth i'r Ysgolion yr Amgueddfa Genedlaethol. (teleffon: Caerdydd 26241 est 61).

CAERPHILLI

All ddechreuodd dosbarth nos cylch Caerffili ar ol y gwyliau gyda ddarlith gan Mr T. Gwynn Jones, darlithydd yn y Coleg Addysg, Cyncoed, ar enwogion y genedl a gladdwyd ym mynwent Groeswen gan gynnwys Ieuan Gwynedd, Caledfryn, Carnelian, ac eraill o'r enwog Clic y Bont. Rhyfeddol yw sylweddoli o'r newydd beth oedd dyfnder cyfoeth diwylliannol y werin mewn oes a fu.

BABI

Merch i Marged a John Roberts 19 Stryd Dogfield — John o Sir Fon — Marged o Frynaman. Dydd Iau, 24 Ionawr.

— Enw — AWEL MENAI —

BABI.

I Luned a Dafydd Meredith Kyfeilog Street, Caerdydd - mab Gruffudd Selmon—brawd i Elin ac Owain.

Amgueddfa Werin Cymru

SAIN FFAGAN

Dowch i weld : Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilewent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail, Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

MYNEDIAD: Pobl mewn oed 10c (20c Gorffennaf ac Awst)
Plant o dan 16 5c.
Pensiynwyr yn rhad.
Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.
Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.
(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

MAES PARCIO:

Bysiau	15c
Ceir Preifat	11c
Beiciau Modur	5c

ORIAU AGOR:

Dyddiau'r Wythnos:	Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00 a.m. — 6.00 p.m. Gorffennaf ac Awst 10.00 a.m. — 7.00 p.m. Hydref — Mawrth 10.00 a.m. — 5.00 p.m.
Sulau:	Ebrill — Medi 2.30 p.m. — 7.00 p.m. Hydref — Mawrth 2.30 p.m. — 5.00 p.m.

BYW YN RHIWBEINA

Atgofion Dr. Kate Roberts o'r faesdre yn y dauddegau.

Yn Rhiwbeina yr oedd y tŷ yr aethom i fyw ynddo gyntaf ar ol priodi. Buom yno o Ionawr 1929 hyd Gorffennaf 1931. Tŷ bychan twt oedd y tŷ yn Lon Isaf, ar ganol yr ystad dai oedd wedi ei hadeiladu ymddo; 'Tŷ rhwng gerddi' ydoedd, a'r gerddi yn hynod brydferth o fis Mawrth hyd fis Hydref, a swn garddio i'w glywed ymhobman yn ystod y misoedd hynny. Yr oedd ein tŷ ni yn fychan iawn, ond yn dŷ bwyba a hawdd ei gadw'n lan, gan nad oedd dim gweithfeydd o gwmpas y pryd hynny.

Lle anghymdeithasol iawn oedd Rhiwbeina. Nid oedd yno gyfarfod-ydd na neuadd y pryd hynny, ac ychydig a fyddai'n galw. Ond deuai cyfeillion o Gaerdydd a llefydd eraill i edrych amdanom. Deuai Caradog Prichard i fyny o Gaerdydd, ef yn gweithio ar y *Western Mail*. Daeth i fyny un dydd Sadwrn gyda'r newydd fod yr R101 wedi mynd i lawr, a'r Sadwrn dilynol gyda'r newydd fod Silyn Roberts wedi marw. Deuai Islander atom weithiau, a chofiaf ef yn dyfod un tro gyda darn mawr o pig, wedi ei brynu yn *City Road*, Caerdydd. Deuai rhai eraill hefyd, a'n hen ddisgyblion yn Aber-dar. Medrodd un ohonynt gael benthyg llyfr o Lyfrgell Caerdydd i mi, *Dyddlyfr Marie Bashkirtseff*, llyfr a dylanwadodd yn fawr arnaf.

Byddwn i'n mynd i lawr i Gaerdydd ryw ddwywaith yn yr wythnos, unwaith ar fy mhen fy hun, a bob dydd Sadwrn gyda'm gŵr. Pan awn ganol yr wythnos byddwn yn mynd o gwmpas y siopau, prynu pethau weithiau drwy gael bargen ar gynfasau a phethau tebyg. Galw yn llyfrgell David Morgan am lyfr, a gorffen drwy fynd i dŷ bwyta a chael paned o de gyda scone, a theimlo fy mod wedi cael prynhawn hapus. Cyn mynd adref byddwn yn prynu rhywbeth yn sgram i swper.

Trwy wasanaeth llyfrgell David Morgan, cefais gyfle i ddarllen lawer iawn o lyfrau. Darllenais ugeinlau o storiau Tsiechoff a Maupassant. Darllenais gymaint o storiau'r olaf nes dyfod i'r casgliad ei fod yn greulon er mwyn bod yn greulon. Yr oedd y Rwsiad yn gredicach o lawer.

CYMNI DIFYR

Yr oedd Dr. W. J. Gruffydd a Dr. R. T. Jenkins yn byw yn Rhiwbeina ar y pryd a byddem yn eu gweld hwy weithiau. Yn ddiweddarach daeth Dr. Peate a Mrs. Peate yno a byddem yn eu gweld hwythau weithiau. Un arall oedd yn byw yn Rhiwbeina ar y pryd oedd Dorothy Edwards, y nofelydd. Yr oedd ynof awydd mawr am ei gweld, ac wrth fyned heibio i'w thŷ byddwn yn teimlo y dylwn alw yno. Ond ni fedrais erioed fagu digon o wroldeb i gnocio ar ei drws. Bu'n edifar gennyf am hyn gannoedd o weithiau, yn enwedig ar ol inni fynd i fyw i Donypandy, a darllen am ei marw trychinebus. Un arall a drigai yn Rhiwbeina yr amser yma oedd John Llywelyn Williams o Rostryfan, ef yn athro yn Ysgol Uwchradd, Caerdydd. Byddwn yn ei weld ef a Mrs. Williams weithiau. Ond rhywsut yr oeddem yn rhy brysur i weld ein gilydd yn aml. Ond yr oedd yna gymdeithasau o fath arall yng Nghaerdydd yr adeg ynta.

Y GWYNEDDIGION

Yno yr oedd y Dr. Thomas Parry, y diweddar W. J. Parry o Benygroes yn gweithio yn y Bwrdd Iechyd, Maud Griffiths o Lanwnda (Mrs Sam Jones wedyn, ac mor drist heddiw yw dweud y diweddar Mrs Sam Jones) Morris L. M. Roberts, o'r Gellioedd ger Y Bala, hi yn brifathrawes ysgol yn Llanbradach, ac Idwal Jones o Benygroes, yntau yn gweithio yn y Bwrdd Iechyd. Fe'n galwasom ein hunain yn Gymdeithas y Gwyneddigion a byddem yn cyfarfod mewn ty bwyta yng Nghaerdydd rwan ac yn y man. Cofiaf un o'r cyfarfodydd hyn yn arbennig. Yr oeddem wedi cyfarfod mewn tŷ bwyta tanddaearol yn Heol y Frenhines. Ar ol bwyta, dyma ni'n cael rhyw fath o noson lawen; yr oedd Dr Thomas Parry a W. J. Parry wedi paratoi rhaglen, anerchiadau gan y beirdd oedd hi fwyaf, ac, mae'n ddrwg gennyf ddweud, parodiau ar rai o'n hemynau gorau. Buom yno yn siarad ac yn chwerthin am oriau. (Mae'r rhaglen honno gennyf byth). Dyma ni'n meddwl y dylem symud o'r ty bwyta yma i rywle arall, a dyma ni'n codi fel gwenyn, a chroesi i'r Kardomah. Cyn cyrraedd y lle hwnnw, dyma Idwal Jones yn sefyll yn stond ac yn dweud, 'Welais i rioed gymaint o bobl yng Nghaerdydd.' 'Yn ymyl Woolworth yr ydan ni,' meddwn innau. 'O,' meddai Idwal, 'Y Werin a'i theymas.' Chwi gofiwch mai dyna deitl llyfr gan David Thomas.

BWYTA EILWAITH

Wedyn mynd i mewn i'r Kardomah a dechrau bwyta yr ail dro, heb ddim anerchiadau barddonol y tro hwn. Ond dyma W. J. Parry yn dechrau dynwared siopwr pur adnabyddus o'i hen ardal. Bu wrthi am ugain munud, perfformiad godidog o gymeriad lliwgar. Cofiaf dro arall i Idwal Jones fod yn absennol o'r criw. Dym'r gweddill ohonom yn penderfynu llogi tacsi i fynd i'w lety. Yr oeddem yn fwy na llond y tacsi, ar draws ein gilydd. Un ohonom a aeth i mewn i'r llety a chael bod Idwal Jones yn sal dan y ffliw ac yn ei wely. Fe chwalwyd ein cymdeithas, gan i rai symud o Gaerdydd. Mae'r cyfnod yr wyf yn son amdano yn dyfod ar ol y cyfnod pan oedd Williams Parry a'r Major Hamlet Roberts yng Nghaerdydd. Ymhellach ymlaen byddai Morris a minnau yn cyfarfod a Norman McLeod o Bwllheli a Ben Owen o Flaenau Ffestiniog ac yn mwynhau sgwrsio mewn tŷ bwyta.

Ond nid mwynhau'r cymdeithasau yma oedd ein holl fywyd Trwy ddarllen llawer fe'm paratois fy hun ar gyfer ysgrifennu storiau ac yn ystod y cyfnod yma yr ysgrifennais *Laura Jones*.

OS AM GYSODI AC ARGRAFFU PAMFFLEDI
TOCYNNAU, PAPURAU – UNRHYWBETH
CYSYLLTWCH Â

Mid-Wales Litho

NEW RD. CRUCYWEL, SIR FRYCHEINIOG.
Ffôn CRUCYWEL 302



DYMA MIFFI YN MYND
I ADEILADU BWRDD
ADAR YN YR ARDD

PRYNNODD Y MORTHWYL
A'R LLIF YN SIOP DAN
EVANS LLE Y GWELODD
LIAWS O OFFER GAN
WNEUTHURWYR DA FEL
'STANLEY', 'BLACK & DECKER'
'WILKINSON' AC ERAILL

Galwch i weld

Dan Evans

Y BARRI 4242

MAES Y PLANT

POSAU DI-RIF!!!

Fe anfonodd Wyn Innes nifer o bosau i fi, a chystal imi eu rhannu nhw hefo chi. Dyma nhw:

1. Beth sydd yn mynd lan yn wyn ac yn dod i lawr yn felyn?
2. Beth sy'n ehedeg a does dim adenydd ganddo?
3. Beth sydd a dannedd ganddi ond ddim yn cnoi?

A dyma ichi ragor — rhai fyddwn i'n arfer eu gofyn pan oeddwn i'n blentyn,

1. Beth sy'n mynd yn hwy wrth ichi ei thorri hi?
2. Beth sy'n cerdded drwy'r byd a'i phen i lawr?
3. Beth sydd a thafod ganddi, ond all hi ddim siarad?
4. Beth sydd a llygad ganddi, ond ond all hi ddim gweld?
5. Beth sy'r un fath a hanner lleuad?
6. Beth mae cath yn eu cael na chaiff yr un creadur arall?

Chwiliwch am yr atebion ar waelod y tudalen.

DEG O DDYNION DUON BACH

Wyddoch chi sut y mae peri i ddeg o ddynion gerdded law yn llaw? Mynnwch ddarn o bapur tuag ugain centimetr o hyd — ond does dim rhaid ichi fesur yn ofalus o gwbwl. Plygwch e'n deidi yn ei hanner. Yna, plygwch e eto. Fe fydd y darn papur sy gyda chi'n awr yn pedwar plyg pum centimetr o led (fwy neu lai). Ar y darn yma, tynnwch lun dyn, fel yn y llun yma.



Ar ol gwneud hyn, gofynnwch i mam am fenthyg siswrn, a thorrwch y papur o gwmpas y dyn bach, gan gofio peidio a mynd dros yr un llinell. Ar ol ichi wneud hyn, agorwch y plygion, ac fe welwch fod gennych chi bedwar o ddynion bach yn cerdded law yn llaw.

Ond rhoswch chi — fe ddwedais i "deg o ddynion duon bach"! Chewch chi byth ddeg, os na thorrwch chi rai i ffwrdd. Ond fe gewch chi wyth neu ddeuddeg. Sut? Wrth ddefnyddio papur hirach a'i blygu'n gulach. Gyda llaw, fe wnaiff papur newydd y tro i'r dim. Fe ellwch wneud deg o ddynion duon mawr o bapur newydd! Pob hwyl.

FFORDD DDA O ENNILL ARIAN!

Ewch a chyfalll at glwyd uchel yn rhywle, a dwedwch.

"Well di'r glwyd yma, was. Mae'n uchel. Dere di a cheiniog i fi ac fe neidia i drosti hi!"

Y ffrind yn estyn ceiniog ichi — gan obeithio'ch gweld yn ceisio llamu dros y glwyd.

Ond rhowch y geiniog ar y ddaear a neidiwch drosti hi — a dyna chi wedi cyflawni'ch addewid.

Ar ol ichi ddysgu'r grefft, mentrwch fwy. Dywedwch wrth dad, "Welwch chi'r ty 'ma? Mae e'n fawr. Dewch a darn deg ceiniog i fi, ac fe neidia i drosto efl

Fe ddylech ennill digon i brynu beic mewn dim amser! Pob hwyl.

BLE MAE HWN?

Dyma'r llun olaf a dynnodd camera Huw Jenkins i geisio'ch dal chi, a dyma'r llun mwyaf anodd o ddigon. Os gwyddoch chi ble mae e, anfonwch wybod i fi ar unwaith. Y cyfeiriad yw, 46, Crystalwood Road, CAERDYDD.

CYSTADLEUAETH IONAWR

Fe gefais i ddau ateb i gystadleuaeth Ionawr, a'r ddau yn gywir. Felly, da iawn Huw Iddles, 199, Heol Sant Ffagan, Tyllgoed, Caerdydd a hefyd Wyn Innes, 6, Heol Wern-las, Eglwysnewydd, Caerdydd.

Fe all y rhai hynny ohonoch chi na chafodd yr ateb edrych am y peiriant oedd yn y llun ger maes parcio'r Amgueddfa Genedlaethol yn y ddinas.

YR ELIFFANT

Dyna dda, ynte, fyddai medru cofio popeth! Fe allech adael yr ysgol yn gynt o lawer — wedi dysgu'r cwbwl. Ond mae rhai'n dweud fod yna un anifail nag sy byth yn anghofio. Yr eliffant.

A dyma stori (wir?) amdano fe, neu i fod yn fanwl gywir, amdano fe a John Jones.

Dyn yn treulio'i amser yn India oedd John Jones, a'i waith oedd saethu anifeiliaid gwyllt. Ond fe syrthiodd e mewn cariad a'r anifeiliaid a fedrai e ddim meddwl am saethu'r un. Fe syrthiodd mewn cariad a nhw am iddo fe ddod ar draws eliffant bach un tro — roedd wedi anafu'i goes yn ddrwg, ac fe ddaeth yr eliffant i'w nabod e'n lawn.

Yna, fe ddaeth John Jones yn ol i Gymru. Am nad oedd e'n barod i saethu anifeiliaid doedd ganddo fe ddim gwaith. Ac roedd hi'n anodd cael gwaith yng Nghymru, a chyn hir roedd e mor dlawd a llygoden eglwys.

Ond un diwrnod, fe glywodd fod syrcas yn dod i Erddi Soffia, syrcas yn llawn o bob math o anifeiliaid gwyllion — gan gynnwys eliffantod. A dyma fe'n penderfynu mynd yno, i gofio am yr amser braf yr oedd e wedi'i gael yn Yr India. Doedd ganddo fe fawr ddim arian, ac fe eisteddodd e'n bell yn ol — yn y cefn, a doedd e ddim yn cael golwg dda ar y cylch o gwbwl. Ac roedd y seddau blaen i gyd ymron yn llawn — bobol bwysig Caerdydd yn eistedd ynddyn nhw.

Cyn hir, fe ddaeth yr eliffantod ymlaen, ac yn union y gwelodd e nhw'n dod, dyma John Jones yn neidio o lawenydd. Roedd e wedi adnabod hen gyfaill iddo — yr eliffant bach. Wrth gwrs, roedd e'n eliffant mawr erbyn hyn, ond mae mor hawdd gwybod y gwahaniaeth rhwng eliffant ac eliffant ag yw hi i adnabod y gwahaniaeth rhwng dau berson. Fe gododd John Jones ar ei draed a chwiban yn uchel — yr arwydd fyddai'n ei rol i'r eliffant pan oedden nhw yn Yr India gyda'i gilydd.

Fe gododd yr eliffant ei drwnc — a thrwmpedu! Ac ar unwaith fe edrychodd i gyfeiriad John Jones. Fe frasgamodd trwy bawb a mynd yn syth ato fe, nes codi peth braw ar bobol bwysig y seddau blaen! Fe glymodd ei drwnc am John Jones a mynd ag e'n ol i gyfeiriad y cylch. Yna, dyma fe'n ei rol fe i eistedd yn un o'r seddau gorau. Wedyn fe aeth ymlaen gyda'i driciau, fel pe na bai dim wedi digwydd! Ond fe gafodd John Jones weld popeth am ymron ddim!

Chwarae teg i'r eliffant!

LLIWIAU

Tybed faint ohonoch chi sy'n hoffi arlunio? Hyd yn oed os nag ych chi, mae astudio lliwiau'n ddiddorol dros ben.

Rych chi wedi clywed pobol yn dweud, rwy'n siwr, fod cadach coch yn cynhyrfu tarw. Celwydd i gyd. Dyw tarw ddim yn gallu gweld lliwiau o gwbwl. Mae o'n gweld y byd fel pe bai e'n edrych ar set deledu ddu a gwyn!

A dyna ydy hanes ci hefyd. All ci ddim gweld yr un lliw o gwbwl, yn ol yr arbenigwyr. Yn wir, all e ddim gweld yn dda iawn. Fe all pob un ohonom ni weld yn well na chi. Ond fydd Pero'n poeni dim. Fe all glywed yn well na'r un ohonom a mae e hefyd yn medru arogli'n dda, ac mae hynny n hen ddigon iddo fe.

Ond y mae gwenyn yn gweld lliw — dyma un o'r rheswmau paham y maen nhw mor dda am ddod o hyd i flodau; y lliwiau'n eu denu nhw.

Pe baech chi'n cymysgu'r lliwiau i gyd gydu'i gilydd, tybed a wyddoch chi pa liw gaech chi? Yr ateb ydy gwyn. Arwydd presenoldeb yr holl liwiau ydy gwyn. Os ydyn ni am fod yn fanwl gywir, fe allen ni ddweud nad oes y fath beth a lliw du. Arwydd absenoldeb yr holl liwiau yw du.

CYMERWCH OFAL!!!

Disgyblion Rhydfelen gofalwch siarad yn weddus o hyn ymlaen ag Eleri Evans a Gareth John, y ddau o ddosbarth 3R. Mae'r ddau wedi ennill "Junior Black Belt" yn Judo. Llongyfarchiadau iddynt.

Os ydych am argraffu . . . . dewch atom ni:—

SOUTH WESTERN PRINTERS LIMITED

Western Ind. Estate, Caerffili, Glam.

Ffon: Caerffili 885911.

ATEBION I'R POSAU

1. Wy.
2. Amser.
3. Crib.
1. Cwter.
2. Hoelen esgid.
3. Esgid.
4. Nodwydd.
5. Yr hanner arall.
6. Cathod Bach.

YSBYTY ATHROFAOL CYMRU

Sylwnyt bersonol DON MAY, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus Bwrdd Ysbytai Cymru. Sais a ddysgodd Gymraeg.

Dyma hi'n gorwedd, yn oleuadau i gyd, wrth angor ger ffordd mawr tan gysgod clogwyni traws-ffordd Gabalfa, banner-long Meddyg-ath Cymru a'i thynfadau a chadlongau disgwylgar.

Be ydi'r henw hi? I'r rhan fwya ohonom, Y Waun, neu'r Heath, enw sy'n fwy priodol i dafarn ar gongl cyfagos. I'r bobl sy wedi gweld eu heol faesdrefol dawel yn cael ei throi yn dramwyfa brysur, mae hi wedi dwyn enw o Facbeth Shakespeare, Gwaun Felltigedig. A dweud y gwir, dydi'r un o'r rhain yn gywir, Ysbyty Athrofaol Cymru ydi hi, neu UHW fel y gelwir hi gan y bobl yn y maes, gan na roddwyd enw sir o Gymraeg ar ei chyfyl.

Gosodwyd ei chilbren, mewn dyddiau sy'n ymddangos amser maith yn ôl, gan Ysgol Feddygol Cymru ynghyd a'r hen Reolwyr Ysbytai Unedig Caerdydd. Ond fe gymer amser maith i gynllunio ac adeiladu ysbyty athrofaol, rhag-wneuthuredig, unedig, gydag ysgolion meddygol a deintol, uned hyfforddi cynhwysfawr, canolfan gwelnyddol rhan-barthol, etc., etc., i gyd yn un adeilad anferth, cymhleth. Ac fe gymerodd hi amser. Wedi i bum miliwn ar hugain o bunnoedd a rhyw bymtheng mlynedd fynd heibio, agorwyd y Waun, a'r Frenhines ei hun yn torri y botel siampaen sumbolaidd ym 1971.

Gydag ychydig dros 800 o welyau, dydi Ysbyty Athrofaol Cymru ddim yn anghyffredin o fawr yn ol safonau Prydain. Beth sy'n gwneud iddo ymddangos mor enfawr ydi ei bod gymaint fwy na dim ond ysbyty. Ar wahan i'r cleifion sy yno, mae yno 3,500 o staff a myfyrwyr (a rhyw 800 yn byw i fewn ar y safle yn y lleoyn preswyl) a bwytach fod 10,000 o bobl yn mynd a dwad yno bob diwrnod ohan. 'Does ryfedd mai'r uned arbyno arobryn yno ydi'r un fwyaf yn y Gwasanaeth Iechyd! Nid ydi'n rhyfeddol chwaith fod yn rhaid i Y.A.C. wrth salon drin gwallt, siop flodau, newyddiad-urwr, swyddfa post, dau fanc, gwasanaeth bysiau, ac yn y blaen i'w hunan.

CHWERWEDD

Ond yr hyn sy'n syndod, o leiaf i'r cleifion, staff a gweithwyr gwisfoddol yno, ydi fod gymaint o chwerwedd ynglyn a'r sefydliad. Pam ddylai Caerdydd gael popeth, meddir? Y clod, yr arian, yr holl flaenoriaeth?

Cwestiynau teg, os mai yn Aberystwyth neu yn Ninbych yr ydych yn byw, neu fwy fyth os mai ym Mhowys lle nad oes hyd yn oed un Ysbyty Ardal.

Yr ateb ydi nad eiddo Caerdydd mo Ysbyty Athrofaol Cymru fwy nag unrhyw ddinas arall yng Nghymru. Mae hi'n digwydd mai yng Nghaerdydd y mae Ysgol Feddygol Cymru, a hithau am fwrw heibio un croen a gwisgo un arall. Ac wedi ichi gynnull eich athrawon a rhoi iddyn nhw adeiladau newydd sbon gyda rhyfeddodau technoleg fodern wrth law, fe wellir na wnu safonau arferol a hoff y biwro-cratiaid ganiatau ichi wario'r un arian eto ar gyflenwi'r darpar-iaethau esoterig yn rhywle arall. Nis cwestiwn o arian yn unig ydi hi chwaith. 'Does dim mo'r adnoddau dynol - a dynesoli - ar gael chwaith. Hyd yn oed os medrech chi gael gafael ar staff yn ogystal ag arian, nid peth hawdd ydi cyflenwi'r gwasan-aethau dymunadwy. Mae'r amryfal gymdeithasau proffesi-ynol yn medru safonau arbennig o waith, o ran ansawdd yn ogystal a maint.

Ateb y damcaniaethwyr oedd canoli, canoli staff ac adnoddau ariannol lle y gellid gwneud fwyaf o les. Ond mae'r pendil wedi mynd drosodd yn rhy bell, ac yma a thraw ym Mhrydain mae pobl wedi bod yn dal eu gwynt mewn pryder wrth l'w hysbyty fach lleol fynd dan y chwydd-wydr.

ANGEN MAWR

Mae achos Cymru wedi dangos yr angen am ysbytai cymunedol da yn ogystal a'r prif ganolfannau o safonau aruchel. Arloesodd Bwrdd Ysbytai Cymru drwy ei ymchwiliad treiddgar i anhaws-terau teithio i ysbyty, ei hym-drechion i gynnal gwelyau mewn ardaloedd lle na ellid cyflawn-hau'r peth ar dir economaidd 'pur', ei waith arloesol ar ofalu am blant mewn ysbytai, ei cyfundrefn o ymgynghori a'r cyhoedd a'i thim arolygol a sefydlwyd yn arbennig er mwyn archwilio problemau dyrys, yn yr holl bethau hyn mae Cymru wedi dangos y ffordd. Yn erbyn y cefndir yma mae goleuadau llachar Y.A.C. yn pylu ychydig ac yn mynd i'w lle. Mae cenhed-laeth newydd o ysbytai cyffredinol ardal wedi codi ym mhob cwr o Gymru. Hwyrach y bydd yna ail ysgol feddygol rhyw ddydd i rannu peth ar ogoniant Y.A.C. Ond, mae'n wir, roedd Ysbyty Athrofaol Cymru yn gyntaf o'i fath. Fel llawer dat-blyglad arall yng Nghymru o fewn y gwasanaeth ysbytai.

Mae'n digwydd bod mai yng Nghaerdydd y mae Ysbyty Athrofaol Cymru, ac mae Caer-dydd yn ffodus o'i gael. Ond fel ymddiriedwr y genedl y mae'r brif-ddinas yn cynnal y lle.



Y TABERNACL

Cafodd 1974 groeso teilwng gan aelodau'r Tabernacl. Ar ol gwledd o swper wedi ei baratol gan y brodyr o dan eu capten Mr. W. R. Davies, ac awr o hwyl a sbri gyda'r bobl ifainc o dan ofal Miss Gaenor Thomas, aeth yr aelodau i fewn i'r capel am hanner awr wedi un ar ddeg i gymryd rhan mewn gwasanaeth hyfryd gyda'r gweinidog y Parch-edig Raymond Williams.

Yng ngwasanaeth y plant bore Sul cynta'r flwyddyn, cawsom y pleser o glywed llais 'newydd' yn annerch y gynulleidfa a stori bwrpasol i'r plant. Erbyn hyn mae Mr. Dic Hughes yn un ohonom ni ac wedi ymgartrefi yn ein mysg. Bydd yn ei sedd arferol bob Sul y bydd ei waith yn dod ag e' i lawr i'r De. Mae rhai pobl yn gyfoethog iawn yn berchen ar ddau gartref. Telmla Mr. Hughes ei fod ef yn fwy cyfoethog na hwynt a dwy aelwyd capel a dau weinidog ganddo ef.

Ar ddechrau blwyddyn newydd daeth dau gapel at ei gilydd i gael noson o hwyl a sbri ac yn fwyaf pwysig i gael noson o ddod i adnabod ein gilydd yn well. Daeth llu o gyfeillion o Heol y Crwys a rhaglen o safon uchel i ddiddori Cymdeithas y Tabernacl. Gobeithir na fydd pobl y Crwys yn barnu pobl y Tab. yn ol eu hymddygiad yn y ddrama fawreddog a berfform-iwyd iddynt. Edrychwn ymlaen at lawer mwy o gyfarfodydd fel hyn i geisio cael yr enwadau yn nes at eu gilydd.

Croeso i frawd bach newydd Eleri Haf Cosslett. Anrieg i Eleri oedd ei brawd bach ar y nos cyn y Nadolig. Mr. a Mrs. John Cosslett yw'r rhieni balch.

EISTEDDFOD GYLCH

Daeth amser unwaith eto i ganghennau o'r Urdd fynd ati i baratol at yr Eisteddfod. Eleni cynhelir Eisteddfod Gylch Cwm Rhymni yn y Coleg Technegol Cross Keys, ar Ddydd Sadwrn, Mawrth 9. Cynhelir yr Eisteddfod Sir bythefnos yn ddiweddarach ar Fawrth 23. Ni fydd yr ad-drefniant mewn llywodraeth leol yn effeithiol ar system eisteddfod-ol yr Urdd eleni.

Ysgrifennydd y Pwyllgor Cylch yw Elfan Jones, Ysgol Gymraeg Bargoed, ac Ysgrifenyddes y Pwyllgor Sir yw Ann Davies, Ysgol Uwchradd Rhymni. Bydd yr enillwyr eleni yn cael y fraint o gynrychioli'r ardal yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyl, Sir Fflint.

- Os yw Cymru'n genedl, mae arni angen ei sefydliadau cenedlaethol.
- Mae gan athrawon Cymru eu Hundeb cenedlaethol eu hunain.
- Os ydych chi'n athro neu athrawes sy'n cyfri eich hun yn Gymro da, neu Gymraes dda, a heb fod yn perthyn i undeb eich gwlad eich hun, gwahoddir chi i gysoni'ch syniadaeth trwy ymuno ag :

UCAC

- Cewch berthyn iddo gan wybod nad ydych yn cynorthwyo i gynnal sefydliadau Llundeinig mewn moethusrwydd tra tanseilir rhwydwaith frau eich cenedl chi'eich hun gan yr union sefydliadau hynny.

Tal Aelodaeth Llawn £7.00

Athrawon a adawodd y coleg yn ystod Haf 1973 ... ... £3.50

Telerau arbennig i Athrawon Rhan-amser ac Athrawon Dros Dro.

Aelodaeth arbennig ar gyfer darpar-athrawon.

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU
11 Heol Gordon, Caerdydd. CF2 3AJ. Tel: 24692.

Y FARI LWYD ELENI

Fel ateb i'r cartwn a ofynnodd, "Oes pen caled gan y Fari Lwyd?", mae'n rhaid i mi gyfaddef, oes! Ar ôl y croeso mawreddog a gafwyd ym mhobman eleni 'roedd angen pen caled iawn arni, ond er hyn simsan braidd oedd hi'n cyrraedd ei stabal ar Nos Galan.

Rydym fel Cwmni Dawns wedi bod wrthi ers tair blynedd yn dilyn y Fari ar ei hynt o amgylch Caerdydd a'r Fro a syndod i ni yw'r diffyg gwybodaeth sy o'r hen draddodiad. Mae llawer yn cofio'r Fari yn galw pan yn blant ond erbyn hyn maent wedi anghofio manylion y ddefod. Mae'n wir i ni wneud tipyn o ymchwil i'r peth er mwyn bod yn gywir ond er hyn siom yw diffyg ymateb rhai. Er mwyn eglurhad dyma fraslun o hanes y Fari a'r hyn a ddylai ddigwydd ar ei hymweliad, efallai y bydd y nodiadau hyn o werth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae'r ddefod yn dod o amseroedd cyn Crist pan fu'r ceffyl yn cael ei addoli fel un o'r duwiau cyntefig. Mae'r Fari yn gysylltiedig a'r ceffylau hynny a welir ar waliau ogofau yn Swydd Derby a Dordogne yn Ffrainc, symbolau o ffrwythlondeb a chysylltiad eto a "Obby Oss" Padstowe yng Nghernyw, er y bo hwn yn ymfalchio yn nyfodiad Mai.

PA BRYD

Dwn i ddim pa bryd y dechreuwyd yr ymrafael canu sy nawr yn gysylltiedig a defod y Fari ond mae crynodeb o'r geiriau yn llyfr Trefor Owen "Welsh Folk Customs", casglwyd y rhain gan William Roberts 'Nefydd' yn 1852. Mae'n debyg fod y chwe phennill gynta yn cael eu canu ym mhobman fel dechreuad i'r gystadleuaeth, rhan

Y Fari tu allan i Westy'r Llandaf.

o'r ddefod felly. Ar ôl canu'r chwe phennill a'r atebion priodol y dechreuwyd yr ymrafael barddonol go iawn. Mi dybiaf mai er mwyn cadw Pwnsh a Shwan allan o'r ty oedd prif reswm y canu yma a dim ond ar ôl cael addewid am ymddygiad gweddus y ddau gymeriad yma y cafwyd mynediad. Yn ôl hanes Mrs Margaretta Thomas, Nantgarw, mi fyddai Shwan yn glanhau ffenestri a drysau allanol y ty a hefyd unrhyw un a ddeuai yn rhy agos iddi. Ar un achlysur mae'n debyg fod Pwnsh wedi clirio'r tan i gyd o'r aelwyd a Shwan wedi sgwrio'r grat a'i sgubell ac wedyn wedi 'glanhau' welydd yr ystafell fyw. Mae Pwnsh a Shwan Caerdydd dipyn yn fwy sedet. Mae'n debyg fod y busnes o glirio'r tan yn ymwneud a chlirio ffaeleddau'r hen flwyddyn i ddechrau eto o'r newydd.

BLWYDDYN NEWYDD DDA

Ar ôl cael mynediad i'r tŷ canai osgordd y Fari benillion oedd yn disgrifio'r Fari ei hun a'r cymeriadau a oedd ganddi. Ar ol y gloddesta a ddilynnwyd canwyd bennill ola'r gan gan ofyn am flwyddyn newydd dda i'r teulu.

Y FARI FEDDW

Ar ei thaith eleni aeth y Fari i dafarn y Seren yn Nhroes, bu Mari Llangynnwyd yno nifer o weithiau yn y blynyddoedd diwethaf, felly i'r ffynhonnell fel petae. Cawsom stori eitha doniol gan y tafarnwr am un Fari a fu

Siom y tafarnwr ar ddyfodiad y Fari.

yno. Aeth yr hen ferch a'i ffrindiau ar hyd y Fro braidd yn feddw ar ryw noson cyn 'Dolig gan orffen i fyny mewn cwt ieir a fu'n sefyll wrth gefn tafarn y Seren ar Heol Llantrisant. Mawr fu'r clochdar a'r twrw. Dihunodd y tafarnwr ac anfon am yr heddlu, daeth hwnnw ac i mewn a fe i'r cwt i ddal y 'cadno'. Mawr oedd ei fraw wrth weld y Fari'n edrych yn filain arno a lar yn ei cheg ac uchel oedd sgrechfeydd y dafarnwraig wrth weld Pwnsh yn blingo'r coilog u hwnnw'n sgrechen am ei blu yn ol.

Nosweithiau da, ond annwyl ddarllenwyr cofiwch y ddefod am flwyddyn nesa.

Mi glywais si fod rhyw Fari

Y Fari tu allan i Westy'r Llandaf.

wedi bod yn cerdded yng Nghaerdydd flynyddoedd lawer yn ol, yn enwedig yn ardal Canton. Os ydych yn adnabod unrhyw hen, hen ddinesydd yn yr ardal gofynnwch os yw'n cofio rhywbeth am ben ceffyl yn crwydro strydoedd ei leuenctid adeg y Nadolig a'r Calan. Does dim ots pa iaith y mae'n cofio'r ddefod ynddi, mae'r traddodiad o bwys.

Siom y tafarnwr

Os y dewch o hyd i rhywbeth a fyddwch gystal a danfon gair i mi:

Rhodri Jones,
Dyfodwg, 29 Heathwood Grove,
Caerdydd. Ffon 754842.

Gyda llaw mae Cwmni Dawns Werin yr Aelwyd yng Nghaerdydd yn symud o nerth i nerth. Ar ol tymor llwyddiannus iawn cyn 'Dolig a welwyd ni'n mynd ar ddwy daith i'r cyfandir ag un i'r Iwerddon rydym yn edrych ymlaen at dymor gweithgar arall. Ar hyn o bryd mae'r Cwmni'n brysur paratoi rhaglen ar gyfer Gŵyl Ddewi. Cawsom wahoddiad i ymddangos am awr yng Nghlwb y 'Double Diamond' gyda Dai Ffransis ar y noson honno. Felly os oes rhywun am noson werinol dipyn allan o'r cyffredin ar Fawrth y cyntaf, dewch gyda ni i'r Diamwnt Ddwbl.

Os oes gan unrhyw ddarllenwr ddiddordeb mewn dawnsio gwerin a phethau o'r fath cewch groeso yng Nghanolfan yr Urdd ar nos Iau i godi troed dde a chwith ac i westy'r Llandaf i godi bralch yn hwyrach.

Rhodri Jones.

Dr. Meredydd Evans, un o sylfaenwyr y papur hwn, a gyflwynodd raglen o ganu gwerin gogyfer a Gwyl Dewi ar H.T.V.

Merched y Wawr y Barri

Mae Merched y Wawr, Y Barri nawr ar fin dechrau ar eu pedwaredd flwyddyn. Dair blynedd yn ol ychydig cyn y Nadolig, daeth nifer o Gymry'r Barri a'r Fro, ardal Dinas Powys a Phenarth at ei gilydd yng ngwesty'r Water's Edge a phenderfynu cychwyn arni yn y flwyddyn newydd — a dechrau a wnaethom yn hwylus iawn a sgwrs gan Mr Islwyn Jones, Gwenfo — cychwyn da iawn i unrhyw fudiad.

Oddi ar hynny yr ydym wedi cael nifer o siaradwyr diddorol, yr Athro Dewi Prys Thomas a'r Barnwr Watkin Powell yn eu plith. Yr ydym wedi troi ein llaw at lawer o bethau, trefnu blodau, gwneud addurniadau a theganau, trafod pypedau, dawnsio gwerin a mentro canu cerdd dant. Er mwyn llenwi'r coffrau bu rhaid cynnal ffeiriau sborion a noswaithau cawl a choffi ond bu pawb yn cydweithio'n hwylus. Mentrodd rhai o'n haelodau ar deithiau Merched y Wawr i Lydaw ac yr ydym wedi mwynhau ymweld a changhennau eraill y Sir.

Eleni mae ein hysgrifenyddes, Mrs Llywela Evans wedi ymddeol ac mae Mrs Maywynne Thomas wedi cymryd ei lle. Ein cadeirydd am flwyddyn arall fydd Mrs Marion Morgan. Yr ydym yn edrych ymlaen at flwyddyn arall ddiddorol dan eu harweiniad.

Park Hotel

PARK HOTEL
PARK PLACE
CAERDYDD
CF1 3UD
☎ 23471

* Un o brif westai canol dinas Caerdydd.
* Cyfleusterau ardderchog ar gyfer cynadleddau, prydiau bwyd a chyfarfodydd busnes ar gyfer 30 neu 400.
* 97 o ystafelloedd gwlau cyfforddus nifer gyda stafell ymolchi preifat.
* Ystafell grill a phrif ystafell fwyd yn cynnig dewis o fwydydd da.
* Cyfleusterau bar.

CEWRI'R FRO

gan ITHEL DAVIES

A. Dr. Richard Price

Magodd Cymru ar hyd y canrifoedd, heblaw beirdd a llenorion, nifer o wŷr mawr a fu'n arweinwyr i syniadau a mudiadau. Nid oes odid sir na all ymffrostio yn ei gwŷr mawr. Mae Morgannwg cyn gyfoethoced a'r un. Y tu allan i Gymru yr enillodd rhai o'r rheiny yr enwogrwydd a'r bri a ddaeth iddynt. Yr oeddynt yn fawr ar lwyfan y byd a hanes. Gwyr fel Robert Owen o'r Drenewydd, John Penry o Epynt, Henry Jones o Langernyw a David Lloyd George o Lanystumdwy ac eraill y gellid eu henwi. Efallai na fagodd Cymru ŵr mwy goleuedig ac arweiniol ac eang ei ddylanwad na'r Dr. Richard Price.

Ganed ef yn Tynton, ffermdy ar ffiniau pentref bychan Llangeinor yng nghwm Ogwr rhyw bum milltir o Benybont-ar-Ogwr, ar y 6ed Chwefror 1723. Aeth i Lundain yn llanc deunaw oed ac yno y bu am weddill ei oes. Aeth i Goleg Ymnelliltuol yno i astudio Uwchanieaeg, Athroniaeth a Diwinyddiaeth. Ar ôl bod yn gaplan i deulu penodwyd ef yn bregethwr boreol yng nghapel Newington Green. Ac yno y bu farw ar yr 19ed Ebrill 1791 a'i gladdu yn Bunhill Fields, Llundain yng ngwydd cynulliad enfawr o bobl o bob gradd, yn ddysgedigion, arglwyddi ac aelodau seneddol.

MEDDYLIWR MAWR

Yr oedd Dr Richard Price yn un o feddylwyr ac athronwyr mwyaf ei oes, yn arloeswr ym myd a gwleidyddiaeth. Cyhoeddodd nifer o lyfrau a thraethodau o bwys yn eu dydd. Yr oedd fel athronydd moesol o'r un safon ag Immanuel Kant a David Hume a'r Dr Samuel Butler, Dr. Joseph Priestley ac eraill a oedd yn athronyddu ac yn ysgrifennu yn yr oes honno. Rhagdybiodd lawer o ddysgeidiaeth Kant ac er iddo anghytuno ag amheuon agnostig Hume daeth y ddau yn gyfeillion mawr. Ym 1758 yn 35 oed cyhoeddodd ei glasur ar Foeseg, "Adolygiad ar Brif Ystyriaethau ac anhawsterau Moeseg". Canlyniad hynny fu ei wahodd ym 1765 i fod yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol Brydeinig (Fellow of the Royal British Society). Ym 1767 cyhoeddodd ei "Hedwar Traethawd ar Raglunieth, Gweddi, Disgwyliadau'r rhinweddol am fywyd ar ol marw ac ar Bwysigrwydd Cristnogaeth a'r Gwyrthiau". Canlyniad cyhoeddi'r traethodau hyn oedd derbyn y radd o Ddoethur mewn Diwinyddiaeth gan Brifysgol Aberdeen yn yr un flwyddyn. Ym 1771 cyhoeddodd glasur o waith ar "Sylwadau ar Daliadau Adferol: ar Gynllunlau i ddarparu Blwydd-dal Buddsoddol (Annuities) i Weddwon a'r Henoed etc."

Gweithlodd allan dablau manwl sydd yn arferedig heddiw mewn ywiriant. Gwnaeth hyn, mae'n debyg, ar gais nifer o Gyfreithwyr yn Llundain a gwynai nad oedd darpariaethau boddhaol na digonol mewn bod. Y flwyddyn wedyn, 1772, cafwyd ganddo "Apel at y Cyhoedd ar y Ddyled Genedlaethol". Yn y llyfr hwnnw y datblygodd egwyddor gyllidol sydd ar arfer hyd y dydd hwn ac a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth pan oedd William Pitt yn Brif Weinidog, sef, y Gronfa Gyllidol Buddsoddol (The Sinking Fund). Ym 1776 cyhoeddodd ei waith pwysicaf, efallai, sef, ei lyfr ar "Rhydd-did Gwladol," (Civil Liberty). Yn rhinwedd hwn fe gafodd ryddfraint Dinas Llundain. Ac ym mhen dwy flynedd, ym 1778 gwahoddiad o'r Taleithiau yn yr Amerig i roi trefn ar gynlluniau cyllidol yr Undeb newydd hwnnw ar ol iddynt dorri'n rhydd oddi wrth Brydain a'u sefydlu eu hunain mewn annibyniaeth. Yn yr un flwyddyn arwisgwyd ef a gradd Doethur yn y Cyfreithiau gan Brifysgol Ial gyda George Washington, yr unig ddau ar y pryd i dderbyn yr anrhydedd. Methodd a derbyn y gwahoddiad i fynd trosodd yno oherwydd gwaeledd iechyd.

TRAFOD BRWD

Yn 1784 cyhoeddodd ei lyfr dan y pennawd "Arwyddocad y Chwyldro Americanaidd". Yn hwnnw dadleuodd dros sefydlu yn y Taleithiau Unedig Weriniaeth gyda mesur helaeth o hunanlywodraeth i bob un o'r tair talaith ar ddeg a oedd wedi ymuno a'i gilydd i sefydlu eu hunain mewn annibyniaeth. Dyma enghraifft wych o Gyhoeddi Annibyniaeth Unochrog (Unilateral Declaration of Independence) y mae Jim Griffiths mor ofnus rhag i Gymru ei wneuthur! Sefydlwyd y Weriniaeth Americanaidd ffurfiol ar yr 17ed Medi 1787. Bu hynny ysbaid dwy flynedd cyn y Chwyldro yn Ffrainc ym 1789.

CYHOEDDIAD ARALL

Ar wahan i'r hyn a nodwyd uchod ysgrifennodd Richard Price lyfrau a thraethodau lu ar bynciau moesegol, gwleidyddol a chyllidol a'i gwnaeth yn un o'r dynion mwyaf amlwg yn yr oes honno. Bu'n dadlau achos y Gwirfoddolwyr Gwyddelig (yr Irish Volunteers) a oedd yn hyrwyddo achos Henry Grattan am Senedd Annibynnol i'r Iwerddon a ganiatawyd iddi ym 1783 ond a ddygwyd oddi arni wedyn ym 1803 a'i chorfforiyn y Brydain Seisnig. A bu'n dadlau achos yr Albanwyr hefyd a oedd yn galw am ddiwygiadau yn eu llywodraeth. Ymunodd yr Alban yn seneddol a Lloegr ganrif cynt, ym 1707. Dadl yr Albanwyr y pryd hwnnw oedd iddynt gael eu cymell i ymuno a Lloegr ar gam a drwy dwyll a bod y cytundeb a sefydlwyd yr undeb hwnnw wedi ei dorri gan Loegr. Yr oedd yn bod yr amser hwnnw Gymdeithas Chwyldroadol a fu mewn bod oddi ar amser y chwyldro (os lawn ei gyfrif felly) cyfansoddiadol yn Lloegr ym 1968, mewn canlyniad i'r Ddeiseb Freiniau (1628) a pryd y cafwyd y Datganiad Breiniau, a osododd y Goron o dan rwymau cyfansoddiadol ac fel y dywed Richard Price "yn atebol i'r bobl." Yna fe dorrodd y Chwyldro Ffrengig allan ym 1789. Croesawyd hwnnw gan Richard Price mewn pregeth fawr yn yr Old Jewry yn Llundain ar y testun "Caru ein Gwlad" (Love of our Country). Wrth glol'r bregeth honno dyma Richard Price yn llefain allan, "Y fath amser cyffrous yw hwn. Diolchaf imi gael byw i'w weled; bron na allwn ddywedyd 'Arglwydd yn awr y gollyngi dy was mewn tangnefedd canys fy llygaid a ganfu dy iechydwriaeth' . . . . Wedi cyfranogi o fendithion un chwyldro (1688) arbedwyd fi i fod yn dyst o ddau chwyldro arall, y naill fel y llall yn ogoneddus." Y ddau chwyldro arall wrth gwrs oedd y Taleithiau Unedig a Ffrainc. Yna ar y diwedd mae'n annerch "cynheiliaid llywodraethau gorthrymus ac Offeiriadaethau taeog" a meddai gyda huotledd ysgubol, "Na alwch mwy (yn wrthun ac yn anfad) ddiwyglad yn newyddbeth. Ni ellwch mwyach gadw'r byd mewn tywyllwch. Ni frwydrwch mwy yn erbyn y goleuni a rhyddid. Adferwch i ddynoliaeth ei braint a chytunwch i gywelro cam cyn i chwi a hwythau gael eich llyncu gyda'ch gilydd mewn dinistr."

LLU O BYNCIAU

Cyhoeddwyd y Bregeth honno a gwerthodd fel tan gwyllt a bu raid cael amryw argraffiadau ohoni. Canlyniad honno oedd ysgrifennu brwd dros syniadau Price ac yn ei erbyn. Pan ddarllennodd Dr Joseph Priestley hi "torrais allan i wylo o lawenydd," meddai. Atebwyd y bregeth honno gan Edmwnd Burke, hen Dori blaenllaw a gynrychiolai Bryste yn y senedd mewn llyfr, a ddaeth yn glasur llen y Saeson, sef, "Reflections on the French Revolution." Daeth Dr Joseph Priestley yntau i'r frwydr yn erbyn Burke. Ond y gawith mawr pwysig a oedd yn ateb llym a deifiol i Burke a'r oruchwyliaeth Doriaidd a'r sefydliad oedd llyfr enwog, yntau'n glasur hefyd, gan Tom Paine, "The Rights of Man." Golchodd y llanw mawr dros Gymru hithau, Ysgrifennodd Jac Glan y Gors ei ddau draethawd "Seren Tan Gwmwl" a "Toriad y Dydd" i ledaenu syniadau Tom Paine. Bu Iolo Morgannwg yn gwerthu'r "Rights of Man" a oedd yn waharddedig, yn ddirgel dros y wlad. Cafodd llyfr Tom Paine ddylanwad ar wyr blaenllaw yng Nghymru, megys, Morgan John Rhys a Tomas Roberts, Llwynrhudol. Yn wir fel y llefodd Richard Price yn ei bregeth fawr, "Y fath amser cyffrous oedd hwnnw."



Tri o bobl, sy'n cymryd rhan mewn cwrs dysgu Cymraeg ym Mhontypridd, ond a fu hefyd yn cystadlu yn rhaglen H.T.V. Cymru "Carreg Filltir". O'r chwith i'r dde – Margaret Randall, 10 Timbers Square, Rhath, Caerdydd, Geoffrey Price, 63 Castell-y-Mynach, Creigiau, Elizabeth Robinson, 16 Millfield Drive, Y Bontfaen.

BOREAU COFFI, EBENFSER, CAERDYDD

Fe gyfeiriwyd eisioes am y boreau coffi a gynhelir pob Bore Sadwrn bron yn Ebeneser, Caerdydd o Fis Hydref tan Fis Mawrth, ple y gellir cael sgwrs a chwpaned o goffi neu de, ac ar yr un pryd i deimlo fod dyn yn cynorthwyo mudiadau teilwng. Ers y cychwynnwyd y fenter ym Mis Tachwedd 1971 fe ddosbarthwyd rhoddion i'r Mudiadau a ganlyn:–

Mini Bws i Ysbyty Dyddiol St. Davids = £100; Hostel Byddin yr Iachawdwriaeth = £100; Anrhegion Nadolig Ysbytai Treiai = £163; Cymorth Cristnogol = £55; Cartrefi Dr. Barnardo = £40; Shelter = £43; Holme Towers Penarth = £15; Cymdeithas Afiechyd Parkinsons = £20; Cymdeithas Iechyd Leukemia = £16; Cymdeithas y Pysgotwyr Dyfnion = £12; Gwasanaethau Ieuenctid Cymru = £10; Ysbyty Dyddiol St. David's = £15; Cartrefi Gwyliau i Blant dan adfantais = £20; Clwb Plant dan adfantais Dinas Powis = £7.60.

Y Cyfanswm bron yn £620.

EGLWYSI BETHLEHEM GWAELOD-Y-GARTH A SEVERN ROAD, CAERDYDD

Mae'r ddwy eglwys yma wedi uno i alw Mr. Rhys Tudur o Goleg Bala-Bangor i fod yn weinidog ar y ddwy ddiadell, ac mae yntau wedi derbyn eu gwahoddiad. Bydd y Cyfarfod Ordeinio yn Bethlehem brynhawn Iau Mawrth 28 a Chyfarfod Sefydlu yn Severn Road y noson honno.

COFIWCH AM YR APEL. . .

COFIWCH AM YR APEL. . .

COFIWCH AM YR APEL. . .

PWYSIG . . .

EISTEDDFOD Y GARTH YN EFAIL ISAF.

Gohiriwyd yr Eisteddfod hyd Ebrill 6fed.

Cyfansoddiadau i law erbyn Mawrth 28ain.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Adran Lenyddiaeth

SWYDDOG LLENYDDIAETH

(cyflog £1,725–£2,667)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu polisiau'r Cyngor er noddi llenyddiaeth yn yr iaith Gymraeg, fel dirprwy i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Rhan bwysig o'r swydd newydd fydd cyfrifoldeb arbennig o fod yn ysgrifennydd i'r Academi Gymreig. Nid oes eisiau cymwysterau ysgrifenyddol i'r swydd hon: y mae gwybodaeth o lenyddiaeth Gymraeg a brwdfrydedd dros ei hybu yn llawer pwysicach.

Manylion pellach a ffurflen gais am y swydd hon oddiwrth y Cyfarwyddwr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd.

ADDYSG EIN PRIFYSGOLION

(Araith a draddodwyd yn ystod Rali Llosgi Graddau)

Iaith cenedl yw ei bodolaeth. Dirmygwyd yr iaith Gymraeg gan Loegr ers canrifoedd. Dysgwyd y Saesneg i'r Cymro a chafodd ei addysg yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw hyn yn llai na sarhad i'r Cymro oherwydd ceir ymgais yma i gymryd ei einioes oddi arno. Nid oes ond dau ymateb posibl iddo felly. Naill ai y mae'n ymateb yn daeog trwy wadu pwy ydyw neu y mae'n dewis brwydro yn erbyn difodiant.

Am flynyddoedd maith taeog fu'r Cymro. Croesawodd ei addysg Seisnig a chofleidiodd ddifodiant ei genedl gan wneud popeth o fewn ei allu i fod yn Sais. Eithr yn ddiweddar daeth tro ar fyd ac yr ydym ni yma heddiw yn cynrychioli y newid hwn. Yr ydym ni wedi dewis parhau mewn bod fel Cymry, ac er i lawer ohonom blygu i'r drefn yn wasaldd yn y gorffennol trwy dderbyn ein haddysg trwy gyfrwng y Saesneg yr ydym am ddangos, yn sumbolaidd, ein bod yn ymwrthod yn llwyr a'r hyfforddiant a gawsom ni ac a geisiodd ein Seisnigeiddio.

Yr ydym am gyhoeddi mai methiant fu'r ymdrech i'n Seisnigeiddio, ac ymhellach, yn wyneb yr ehangu arfaethedig ar Brifysgol Lloegr yng Nghymru, yr ydym yn darogan na fydd heddwch ym myd addysg yn ein gwlad hyd nes y cawn Goleg Prifysgol Cymraeg ac hyd nes y cawn sicrwydd na fydd ehangu pellach ar Addysg Uwch Seisnig yng Nghymru.

Ein rhesymau, yn syml, yw, nad oes angen helaethu'r Brifysgol yn ein gwlad ni. Ar hyn o bryd Saeson sy'n mynychu ac yn llenwi tri-chwarter ein Prifysgolion ac nid ydynt o fudd o gwbl i Gymru. Cyfrwng ydynt i brysuro Seisnigeiddiad ein gwlad ac ni fynnwn ni ganiatau i hyn ddigwydd.

Mynnwn Brifysgol Gymraeg fel y gallwn ymfalchio ynddi. Trwyddi hefyd y medrwn Gymreigio addysg yn ein hysgolion oherwydd fe fydd ein disgyblion a'n athrawon yn gweld gwerth a phendraw i addysg Gymraeg. Ni fedrwn, efallai, ar hyn o bryd, eu beio'n ormodol am eu Seisnigeiddiwch oherwydd fe wyddant nad oes cyfle i ddisgybl deunaw oed barhau ei addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mewn nifer fechan o bynciau. Yr ydym ni yma heddiw yn benderfynol o newid y sefyllfa hon. Y mae addysg yng Nghymru wedi bod yn ddienyddiwr iaith effeithiol dros ben ond yr hyn a fethodd ei wneuthur ydyw dienyddio ein hewyllys i bathau mewn bod fel pobl arwahan. Fe allem, a diau y byddai bywyd yn llawer mwy cysurus o'r herwydd, adael y cyfan i golli, ond tra pery ein hewyllys yn gadarn ni fydd tranc yr iaith Gymraeg yn bosibl oherwydd mynnwn goncro pob gelyn sy'n bygwth ein bodolaeth.

Fel y dywedais, dangoswn trwy weithred sumbolaidd, ein bod am fynnu byw, a'n bod yn ymwrthod a'r addysg a geisiodd ein Seisnigeiddio. Galwaf arnoch yn awr i losgi'r tystysgrifau gradd a gawsoch gan Brifysgol Lloegr yng Nghymru ac ar yr un pryd apeliaf arnoch i fyw eich bywyd yng gyfangwbl trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg er sicrhau ei pharhad hi.

Emyr Hywel.

Llosgi graddau — 2b or not 2b.

Mae'r argyfwng economaidd yn effeithio ar gynhyrchu 'Y Dinesydd' fel pob dim arall. Fodd bynnag fe geisir cael y rhifynnau allan mor brydlon ag sy'n bosib.

HELPU'R HENOED

Gan NIA HALL WILLIAMS

Cefais gerydd y dydd o'r blaen gan ewythr i mi am ddefnyddio'r ymadrodd 'henoed'. Yn sicr mae'r gair yn gyfarwydd erbyn hyn gan fod y plant (yn Rhydfelen) yn son byth a beunydd am yr ymweliad diweddaraf a Mr. Hwn-a-Hwn 'ein henoed'. Ond mae Mam (sy'n dathlu ei phenblwydd gyda blwyddyn y ganrif) yn mynd i'r Capel i roi te i'r "hen bobl" – hynny yw, mae'n debyg, unrhyw un sy'n fodlon yfed cwpaned o de yn hytrach na'i dywallt o'r tebot! Gwell gen i ei hymadrodd hi.

Ond, henoed neu hen bobl, mae angen cymorth ambell waith – arnyn nhw neu ar y rhai sy'n gofalu amdanyn nhw. Mae llawer ohonom ni'n arbenigwyr eithaf ar symptomau plant, y poen yn y bol (gormod o bwdin neu ofn y prawf syms yn yr ysgol?) a'r pesychiad fel cyfarthiad ci. Ond pan fo hen bobl yn cwyno am boen sydyn neu'r peswch yn barhaus mae'n annodd i ni, o ddiffyg profiad, wybod sut i wahaniaethu rhwng salwch difrifol ac anhwylder dros dro.

Yn aml, mae'r cyngor a gynigir yn garedig ond cyffredinol 'rhowch-le-i-Nain-yn-y-teulu'. Ond sut mae gwybod beth i wneud i (a) arbed bywyd Nain neu (b) ei galluogi i fyw bywyd llawn tu mewn i unrhyw derfynau a osodir gan gyflwr ei chorff? Mae llawer o'r atebion i'w cael yn y llyfyr a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol Henoed Cymru trwy Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru a Mynwy. Yn "Helpu'r Henoed"* (sy'n ddwy-leithog) mae yno erthyglau gan arbenigwyr mewn Geriatraeth yng Nghymru sy'n rhoi "awgrymiadau personol ynghyd a chyngor i berthnasau a chyfeillion".

Mae'r awgrymiadau yn gadarn, ymarferol ac yn amrywio o sut i adnabod arwyddion aflechyd y galon i sut i gael cymorth Awdurdod Lleol i osod canllaw yn y tŷ bach. Sut i gael help ariannol, beth i fwyta i sicrhau lechyd (a sut i goginio bwydydd rhad) – mae'r cyfan yn y llyfryn, gyda sleisen o hiwmor i roi blas ar y darllen.

Cyfrol werthfawr dros ben nid yn unig i'r 'perthnasau a chyfeillion' ond i unrhywun sy'n dymuno gweud y gorau o fywyd a phensiwn.

**Ar gael gan:–*

Parch. Haydn Thomas,
Ysgrifennydd Cyngor Cenedlaethol Henoed Cymru.
2, Cathedral Road, CAERDYDD

Annwyl Darllenwyr,

Ar ran Pwyllgor Cyllid Canolfan yr Urdd, diolchwn i holl garedigion y mudiad ac eraill am eu cefnogaeth gyda gwerthiant y Cardiau Nadolig. Bu'r gefnogaeth eleni yn fwy nag erioed a diolch hefyd i'r Dinesydd am ei cyhoeddusrwydd.

Mae costau cynal y Ganolfan erbyn hyn dros £2,000 y flwyddyn ac mae eto angen llawer o offer ac yn y blaen i sicrhau llwyddiant parhaol Canolfan Ieuenctid Cymry yn y brifddinas.

Os y carech chi ymhellach gefnogi y Ganolfan, beth am i chi gysylltu swm blynyddol am saith mlynedd? Os y carech chi ffurflenni cysylltu danfonwch air. Bydd y mudiad yn wir ddiolchgar am unrhyw gyfraniad.

John Watkin (Ysgrifennydd)
Lluest,
81 Danybryn Avenue,
RADYR.

NODION O DDINAS POWIS

Er fod y Nadolig ymhell i ffwrdd erbyn hyn rhaid cofio am y gwasanaeth 'Carolau hyfryd a gynhaliwyd yn eglwys Sant Pedr ar 17 o Rhagfyr. Y Parch. J. Lloyd Richards rheithor Dinas Powis a drefnodd y gwasanaeth ac fe gafwyd oedfa bendithiol dros ben. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Mrs James, Mrs Roach a Mrs Jennie Jones ac Alun Daniel ac fe glywyd lleisiau soniarus y plant – sef Bethan Thomas ac Alun a Rhian Owen yn adrodd hanes y Geni. Cafwyd unawd i gyfeiliant y gitar gan Elspeth Hopwood. Fel arfer, roedd y canu'n hwyliog a phersain dan arweiniad Mr Gwilym Lloyd Roberts ac roedd Mrs Mary Williams ein hysgrifenyddes ymroddgar wrth yr organ.

Daeth nifer lluosog ynghyd yn Neuadd Sant Pedr Dinas Powis ar nos Lun 7fed o Ionawr i wrando ar y ddadl flynyddol rhwng Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis a Chymdeithas Gymraeg Penarth. 'Roedd yna siaradwyr o fri ym mhersonau Griff Thomas a Bethan Lloyd o Ddinas Powis a Maxwell Evans a John Breeze o Benarth. Cadeiryddes y noson oedd y Chwaer Eluned Williams o gartref 'Ardwyn'. Cafwyd cryn dipyn o hwyl wrth drin a thrafod y testun fod "Chwys chwarae yn fwy buddiol na chwys llafur". Paratowyd lluniaeth gan chwiorydd Dinas Powis.

YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwlau, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wlau a chelfi.

Ni yw'r arbenigwyr

Sleep & Light Centre

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m.–5 p.m.
NOSON HWYR – NOS IAU HYD 7.30 p.m.